CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfrarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 7 Rhagfyr 2015

Presennol:
*Cadeirydd:* Cyng Mrs Amanda Edwards. *Cyngr:* Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Colin Lewis, Gareth Evans, Peter Hazzelby

*Cyng Sirol* Haydn Lewis

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 2

Dywedodd Mr K Downey a Mr G James eu bod yn bryderus iawn am ddiogelwch y wal gynnal ar y brif ffordd wrth ymyl Ystâd Glanarberth. Roedd rhywfaint o waith wedi'i wneud gan Gyngor Sir Ceredigion (CSC) i symud coed a phrysgwydd a oedd wedi tyfu i fyny at y wal a thrwyddi. Teimlai'r ddau ddyn fod nifer o'r coed a oedd ar ôl yn effeithio ar sefydlogrwydd yr adeiladwaith ac ynddynt eu hunain yn debygol o fod yn beryglus gan eu bod yn ansefydlog. Awgrymwyd y gallai'r cebl pŵer ar y safle gael ei niweidio pe bae coed yn syrthio ar ei ben. Gofynnwyd a oedd Gorchymyn Gwarchod Coed ar rai o'r coed.

Dywedodd C C H Lewis fod y wal a thua 2 fetr o dir wedi'u gwerthu gan y datblygwyr i drydydd parti ac nad oedd yn eiddo i berchnogion y tai na CSC. Roedd y Cyngor Sir wedi dod i mewn i'r mater oherwydd pryderon am ddiogelwch.

GWEITHREDU: Ysgrifennu at CSC. GAN: Y Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr: Mrs J Hawkes, B Rees.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Gofynnodd y Clerc am i'r Cynghorwyr nodi ei bod yn ofynnol iddynt lenwi 'Ffurflen Datgelu Buddiannau', ei llofnodi a'i dychwelyd at y Clerc erbyn diwedd y cyfarfod. Er mwyn eglurder, dylai'r Cynghorwyr hefyd ddweud ar lafar wrth y rhai a oedd yn bresennol beth oedd eu buddiannau.
Mynegodd y Cyng G Evans fuddiant personol yn eitem A150835.

**4. Materion Personol**
Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cyng P Hazzelby ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
A150835 Amrywio amodau 2, defnyddio dyluniadau newydd ac amod 7, gwella mynediad, dileu amodau 12, 13 a 14 Cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy yng nghaniatâd cynllunio A120145
Yr Hen Reithordy, Croes-y-llan, Llangoedmor
Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais

A150763 Addasu llawr isaf adeilad allanol presennol i fod yn ystafell gyfarfod i'w defnyddio mewn cysylltiad â lle Gwely a Brecwast
Derb: 10.11.15 Plas Llangoedmor, Llangoedmor
Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais

A150762 Addasu llawr isaf adeilad allanol presennol i fod yn ystafell gyfarfod i'w defnyddio mewn cysylltiad â lle Gwely a Brecwast
Derb: 12.11.15 Plas Llangoedmor, Llangoedmor
Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais

A150909 Amrywio amod 2 yng nghaniatâd cynllunio A140822 (cynllun wedi'i ddiwygio – i ganiatau lleiau arwynebedd llawwr yr estyniad
Tan yr Onnen, Llangoedmor
Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais

A150925 Amrywio amod 2 caniatadau cynllunio A120113 (cynlluniau wedi'u diwygio) a dileu amodau 7, 8 a 9 caniatâd cynllunio A120113 (cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy)
Fferm Blaenwenen, Llangoedmor
Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais

*Gadawodd y Cyng CC H Lewis y cyfarfod.*

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
*Cadarnhau cofnodion 2.11.15*
Gofynnodd y Cyng K Symmons am i gopi caled o'r cofnodion Saesneg gael ei anfon ato.
Ymddiheurodd y Clerc am na wyddai fod angen iddi argraffu'r cofnodion i bawb. Darllenodd gofnodion 2.11.15 yn uchel i bawb a oedd yn bresennol.
Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn am y penderfyniad i gefnogi, wedi'i gofnodi ar gyfer Cais A150714 – (Ardal Aberteifi) – gosod un (1) twrbin gwynt cymunedol maint canolig yn Fferm Oeman, Heol Caemorgan, Aberteifi.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mai dyna oedd y wybodaeth gywir.
Cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid derbyn y cofnodion fel rhai cywir, eiliwyd gan y Cyng G Evans, a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
*Ystyried materion yn codi o'r cofnodion nad ydynt yn destun adroddiad pellach neu sydd heb eu rhestru'n ddiweddarach ar yr Agenda*
Gofynnodd y Cyng C Lewis am i'r Cyngor gysylltu â CSCeredigion gan ei fod wedi ceisio gweld ffeiliau ar geisiadau cynllunio sydd wedi'u cymeradwyo, ond doedd dim amodau wedi'u dangos yn y ffeiliau. Teimlai ei bod yn bwysig i'r Cyngor Cymuned fod yn ymwybodol o'r rhain.
GWEITHREDU: Y Clerc i gysylltu â CSC

**8. Cyllid a Gweinyddu**
*Awdurdodi'r Cyfrifon – Awdurdodi Talu Biliau*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7.12.15 | Abacus | Glanhau toiledau Tach | | 170.00 | | 170.00 |
| | Abacus | Glanhau"r gysgodfa bysiau Tach | | 76.00 | | 76.00 |
| | SM Trick | Torri porfa 2015 | | 1850.00 | | 1850.00 |
| | Swallow Office Sup | Amrywiol | | 47.70 | 7.95 | 39.75 |
| | Telemat | Gliniadur | | 66.00 | 11.00 | 55.00 |
| | S Houghton | Cyflog Tach | | 249.34 | | 249.34 |
| | HMRC | Treth S Houghton Tach | | 62.20 | | 62.20 |
| | S Houghton | Post, milltiredd | | 12.06 | | 12.06 |
| | S Houghton | Swyddfa Gartref | | 25.00 | | 25.00 |
| | HMRC | Treth Diane Quinnell Tach | | 81.18 | | 81.18 |
| | Diane Quinnell | Cyflog Tach | dd | 349.72 | | 349.72 |
| | | | | 2989.20 | 18.95 | 2970.25 |

Ychwanegwyd anfoneb am £60 oddi wrth y Saith Seren, am luniaeth ar ôl cynnau'r goleuadau, at y taliadau. Gofynnwyd am i benawdau'r colofnau gael eu cynnwys yng nghyflwyniadau'r cyfrifon yn y dyfodol.
Cynigiwyd, Cyng Mrs E Davies, eiliwyd, Cyng C Lewis, cytunwyd yn unfrydol.

Cytunwyd, lle byddai'r Cyngor wedi cymeradwyo digwyddiadau, y dylai'r gwariant ddod allan o gyllideb y Cyngor, nid allan o Lwfans y Cadeirydd.
Cynigiwyd, Cyng C Lewis, eiliwyd, Cyng E Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Banc*

| | | |
|---|---|---|
| **Ar 7.12.11 dim adroddiad newydd i'w gael:** | | 8282.43 |
| | Gwariant Hyd | 430.9 |
| | Gwariant Tach | 1038.94 |
| | | 1469.84 |
| Amcangyfrif incwm Hyd/Tach 15 | | 4097.75 |
| | | |
| Amcangyfrif gweddill yn y cyfrif 30.11.15 | | 10910.34 |
| Heb wariant Rhag 15 | | 2989.2 |
| **Amcangyfrif yn y cyfrif 30.12.15** | | 7921.14 |

*Llofnodion ar gyfer awdurdod banc ac archeb sefydlog*
Llofnododd dau aelod yr awdurdod banc, dilëwyd enw Miss D Quinnell o'r cyfrifon, ac ychwanegwyd enw Mrs S Houghton fel y man cyswllt yn unig, gan iddi ofyn am beidio â bod yn un o'r rhai sy'n llofnodi.

Cyflwynodd y Clerc hefyd Archeb Sefydlog ar gyfer ei chyflog misol a llofnodwyd honno hefyd gan ddau o'r rhai sy'n llofnodi.

*2016/17 Cyllideb*
Roedd y Clerc wedi darparu trosolwg o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am 2014/15 a rhagolwg o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am ddiwedd y flwyddyn ariannol 2015/16. Roedd y rheiny'n cynnwys rhai awgrymiadau am ffigur cyllideb posibl lle roedd yn ymddangos bod awdurdod clir ar eu cyfer. Dywedodd, er mai ychydig amser roedd wedi'i gael i ddod yn gyfarwydd â chyfrifon y Cyngor, teimlai fod y ffigurau'n rhoi trosolwg o sefyllfa ariannol y Cyngor.

Byddai ffigurau terfynol yn cael eu penderfynu yng nghyfarfod Ionawr 2016 gan gynnwys ystyried cynigion panel Taliadau Cymru ar gyfer taliadau i gynghorwyr.

*Contractau:* Torri porfa - cytunwyd i adolygu'r contract a chael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr roi i'r Clerc fanylion am unrhyw gwmnïau lleol a allai fod â diddordeb, a byddai hyn hefyd yn cael ei hysbysebu yn y Tivyside.

*Cronfa wrth gefn ar gyfer cynnal a chadw adeiladau*
Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried, fel rhan o'i broses cyllideb, y ffaith ei fod yn berchen ar nifer o adeiladau ac y dylai, efallai, yn y dyfodol gael rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer unrhyw faterion cynnal a chadw sylweddol a *allai* godi.

*Esbonio newidiadau yn yr Agenda*
Esboniodd y Clerc fod yr agenda yn wŷs gyfreithiol i'r Cynghorwyr ddod i'r cyfarfod (nid oedd hyn, wrth gwrs, yn eu hatal rhag ymddiheuro os oeddent yn methu â bod yn bresennol). Roedd hi wedi newid ychydig o'r geiriad i adlewyrchu hynny, wedi gwneud yr agenda yn fwy cynhwysfawr, ac wedi dileu'r pennawd 'Unrhyw Fater Arall'.

*Hyfforddiant*
Roedd Cyngor Cymuned Llandudoch wedi trafod rhannu costau hyfforddiant ar gyfer y Clerc ac wedi croesawu'r syniad. Lle roedd hyfforddiant yn gymwys i un Cyngor yn unig, awgrymwyd y dylai'r gost lawn gael ei thalu gan y Cyngor hwnnw. Cytunwyd, pan fyddai'r ddau Gyngor wedi gosod eu praesept am 16/17, y dylid cael trafodaeth bellach am y canrannau a fyddai'n daladwy gan bob Cyngor.

*Cofnodion*
Roedd Miss D Quinnell wedi dod o hyd i'r cofnodion a oedd ar goll, ac roedd y person a oedd am eu gweld wedi ei wahodd i fod yn bresennol cyn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor i'w darllen. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i'r Cynghorwyr ar lafar pwy oedd y person hwnnw.

Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried caniatáu i'r hen lyfrau cofnodion gael eu cadw yn Archifau'r Sir, gan fod y llyfrau hynaf yn hanes unigryw i bentrefi ac mai dirywio ymhellach a wnaent petaent yn cael eu cadw yn ei swyddfa hi.
GWEITHREDU: Cysylltu ag Archifau'r Sir am ragor o wybodaeth. GAN: Y Clerc.

*Cofrestr asedion / Yswiriant*
Roedd y Clerc wedi cael cipolwg gyflym ar y gofrestr asedion a pholisi cyfredol y Cyngor. Roedd hi'n pryderu nad oedd y polisi'n adlewyrchu asedion y Cyngor, ac yn wir roedd i'w weld yn yswirio asedion nad oeddent gan y Cyngor. Dywedodd y Cadeirydd fod yr yswiriant yn cael ei drefnu nawr drwy un o is-gwmnïau'r cwmni blaenorol ac y dylai'r newidiadau fod wedi digwydd wrth drosglwyddo'r busnes.
GWEITHREDU: Adolygu'r ddarpariaeth yswiriant a dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor. GAN: Y Cadeirydd a'r Clerc.

*Gwefan*
Roedd y Clerc erbyn hyn yn gallu mynd at y wefan a byddai'n dechrau ei diweddaru ar unwaith ar ôl cael hyfforddiant.
GWEITHREDU: Cysylltu â Telemat i drefnu hyfforddiant. GAN: Y Clerc
Awdurdod wedi'i ddirprwyo wedi'i roi i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i gytuno'r costau gyda Telemat, a dod ag adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

*Contract y Clerc*
Roedd y Clerc wedi dychwelyd y contract ar gyfer ei ddiwygio o bosibl, a chododd gwestiynau am y disgrifiad swydd.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd i lunio diwygiad a dod â hwnnw i'r cyfarfod nesaf.

*Cynllunio brys* – Cyng J Hawkes – wedi'i ohirio.

***9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus***
*Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol – Cyng C Lewis*
Nid oedd gan y Cyng C Lewis ddim gwybodaeth ddiweddar i'w chyflwyno.

**10. Amwynderau**
Dywedodd y Clerc ei bod wedi mynd drwy gofnodion y Cyngor, ac er mwyn eglurder ac er mwyn Cynghorwyr a oedd newydd eu penodi roedd yn dymuno cadarnhau asedion y Cyngor.

*Maes Chwarae/Cae*
Sylwyd bod y cae chwarae yn eiddo i Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd, sy'n elusen gofrestredig, er 22 Mawrth 1976. Ni allai'r Clerc ddod o hyd i ddogfennau'r Ymddiriedolaeth, ond credai mai'r Cyngor oedd yr unig ymddiriedolwr.
GWEITHREDU: Diweddaru'r cysylltiad â'r Comisiwn Elusennau a chael gwybod rhagor am yr ymddiriedolaeth. GAN: Y Clerc.

Roedd y Clerc yn pryderu nad oedd y Cyngor i'w weld yn cynnal unrhyw fath o archwiliad rheolaidd o'r man chwarae. Roedd y sector yn argymell archwiliadau gweledol bob wythnos wedi'u cofnodi ac archwiliad blynyddol gan arolygydd caeau chwarae wedi'i hyfforddi. Dylid cadw'r cofnodion hyn am o leiaf 10 mlynedd. Roedd Mr E Rees, a oedd eisoes yn gwneud gwaith contract i'r Cyngor, yn garedig iawn wedi cael hyfforddiant fel arolygydd, ac wedi cynnig helpu gyda'r rhestr archwilio gychwynnol, ac roedd honno ar gael ar gyfer archwiliadau bob wythnos, bob mis neu bob pythefnos. Oherwydd costau cytunwyd y gallai'r Cynghorwyr yn eu tro wneud yr archwiliad wythnosol.
GWEITHREDU: Gwneud yn siŵr o fanylion yr archwiliad blynyddol a chysylltu â Mr E Rees. GAN: Y Clerc

Sylwyd bod angen gwneud yn siŵr a oedd y cyfarpar newydd wedi'i ychwanegu at yr yswiriant.

Sylwyd nad oedd pystion yr iet wedi'u peintio hyd yn hyn.
GWEITHREDU: Cysylltu â Barry Evans a chadw'r siec nes i'r gwaith gael ei orffen. GAN: Y Clerc

*Toiledau Cyhoeddus/Parc Ceir/Cysgodfannau Bysiau*
Roedd y cysgodfannau bysiau a'r bloc toiledau yn eiddo i Gyngor Cymuned Llangoedmor ac yn cael eu cynnal ganddo. Nid oedd y Clerc wedi gallu dod o hyd i fanylion y Gofrestrfa Tir ar gyfer y parc ceir a gofynnodd a oedd yn rhan o dir a oedd yn eiddo i'r Gymdeithas Caeau Chwarae?

*Yr Hen Eglwys – Holy Cross Church*
Roedd wedi gosod ar brydles i CCLl ar 22 Ionawr 1996 am gyfnod o 99 mlynedd. Sylwodd y Clerc nad oedd yr Eglwys a'r tir o gwmpas i'w gweld ar ddogfennau yswiriant y Cyngor. Cyn belled ag y deallai o'r dogfennau prydles hyn, y Cyngor Cymuned oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw waliau terfyn a gatiau'r Eglwys ac adeileddau eraill ar y tir sydd wedi'i brydlesu, yn ogystal â darparu diogelwch trydydd parti.
Eithriadau: Roedd y beddau, y cerrig beddau, yr ymylon a'r beddrodau i gyd yn dal yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru.
GWEITHREDU: Newid y manylion cyswllt â'r Eglwys yng Nghymru ac archwilio'r gofynion yswiriant. GAN: y Clerc a'r Cadeirydd.

*Pafiliwn y Mileniwm*
Tir wedi'i roi yn rhodd i CCLl ar 18 Mai 1999
GWEITHREDU: Newid y manylion cyswllt â'r Gofrestrfa Tir. GAN: Y Clerc.

**11. Prosiectau'n Parhau**
*Cofeb Rhyfel* – Cyng B Rees – wedi'i ohirio.

*Plac – SLT Lawrence*
Roedd Mr Bill Booth wedi darparu ychydig wybodaeth am gysylltiadau teuluol posibl.
GWEITHREDU: Ysgrifennu at y prif gyswllt a oedd wedi'i enwi i gyflwyno'r Cyngor a'r prosiect. Cytunodd y Cyng G Evans yn garedig iawn i fod ar gael i drafod manylion gydag aelod o'r teulu os byddai angen.

*Drafft o daflen ar fynd i'r afael â'r Ffromlys Chwarennog* – oddi wrth Landudoch – nodwyd.

*Diffibrileiddiwr* – Y Cadeirydd
Gofynnwyd a oedd y diffibrileiddiwr wedi'i osod a chan bwy roedd y cyfarwyddiadau.
GWEITHREDU: Y Clerc i archwilio'r manylion a'r gosod. GAN: Y Cadeirydd.

*Mr Lee - Mainc* - Y Cadeirydd
Roedd y Cadeirydd wedi siarad â chwmnïau lleol a chael cost am y faint unigryw, a dywedodd hefyd y gellid archebu meinciau drwy amrywiol gwmnïau.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd i roi manylion cyswllt i Mr Lee i fynd â'r prosiect yn ei flaen.

**12. Digwyddiadau**
*Arolwg o gynnau'r goleuadau*
Sylwyd bod Mr Penny wedi gorfod prynu dwy set newydd o oleuadau gan fod y rhai presennol yn anniogel. Oherwydd yr amser, nid oedd y gwariant wedi'i gymeradwyo drwy'r Cyngor. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn talu costau'r prynu. Nodwyd, er gwaethaf ceisiadau'r Cyngor i Mr Penny, roedd goleuadau'r goeden yn yr Hen Eglwys unwaith eto wedi'u cynnau cyn y rhai yn yr ysgol.

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth + gohebiaeth e-bost**
*I'w trafod:*
Taflenni'r cynllun ailgylchu
Cytunodd y Cadeirydd i fynd â thaflenni i amrywiol fusnesau a'u gosod ar fyrddau hysbysrwydd yn y pentref.

Ailgylchu gan Fyddin yr Iachawdwriaeth
Cytunwyd i fynegi diddordeb yn y cynllun.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC. GAN: Y Clerc

Asesiad Strategol Troseddu ac Anhrefn Ceredigion 2016
GWEITHREDU: Llenwi'r arolwg ar-lein. GAN: Y Cadeirydd

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft – *Cyfarfod mis Ionawr*

*Er gwybodaeth* - nodwyd
Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygiad CSC a gynhaliwyd ar 11.11.15 a 14.10.15

*Negesau E-bost er gwybodaeth*
Hysbysiad am benderfyniad A140991 – YR HEN FEUDY, LLANGOEDMOR, ABERTEIFI

Penodi Cadeirydd ac Aelodau – Pwyllgor Craffu Endid Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

Diweddariad Rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl Ceredigion

Ymateb y Swyddfa Trais yn erbyn Merched - Arweiniad Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Barod am y gaeaf? Helpu Cadw Cymru'n gynnes

Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru

OVW: English: http://ww.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/The-Ombudsmans-Casebook.aspxCymraeg: http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/The-Ombudsmans-Casebook.aspx

OVW: Ramblers Cymru

Penodi Cadeirydd i Dewis Gyrfa (CCDG)

Twf Gwyrdd Cymru – Opsiynau ar gyfer Cymorth Buddsoddi

Penodi Cadeirydd i Dewis Gyrfa (CCDG)

Bwletin Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhifyn 2 - Rhagfyr 2015

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**

*Cyfle i Gynghorwyr gyfnewid gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol a gofyn am eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol a gofyn am ymchwil ar ddigwyddiadau i ddod.*
Dywedodd y Cyng P Hazzelby ei fod yn cydymdeimlo â'r bobl yn Cumbria roedd y llifogydd yn ddiweddar wedi effeithio arnyn nhw mor ddrwg. Sylwodd, ychydig yn nes adref, fod y ffordd y tu allan i Cardi Building Supplies wedi gorlifo ar ôl cawod drom hyd yn oed, gan olygu ei bod yn amhosibl i blant ysgol a phobl yn ceisio cyrraedd yr arhosfan bysiau i allu gwneud hynny heb gerdded drwy'r llif.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC. GAN: Y Clerc

Sylwyd bod y mur wrth adeilad Cilgerran TVs wedi'i niweidio.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC. GAN: Y Clerc

Mynegwyd pryder fod y fynedfa wedi'i ymestyn wrth y safle newydd wrth ymyl cylchfan Glannant.
Cadarnhawyd nad oedd y fynedfa wedi newid.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Nos Lun 4 Ionawr, Llangoedmor

*Gan nad oedd busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm.*